**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 45**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2001

## RHAN 1 - ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru** (30 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Cynnig cyfansawdd:**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

- Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2000, ac:

- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb nodi unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Rhagfyr 2000.

**Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001**
Yn cymeradwyo:

- Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 2000, ac:

- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd heb unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2000.

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i Brif Weinidog Cymru**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a geir yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (sydd ar gael ar wefan Llyfrfa Ei Mawrhydi: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000037.htm) i Brif Weinidog y Cynulliad, heblaw'r rheiny na ellir eu dirprwyo, yn ôl y gyfraith.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn y llinell olaf, rhodder y gair 'Ysgrifennydd' yn lle'Gweinidog'.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**David Davies (Mynwy)**
**Ar y diwedd, ychwaneger:**

Yn nodi y byddai Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn arwain at oblygiadau ariannol difrifol o safbwynt Awdurdodau Lleol Cymru a thirfeddianwyr yng Nghymru, ac yn penderfynu ymwrthod â'r mesur hwn yng Nghymru.

**Dadl ar Gyfeiriad Hir Dymor Amaethyddiaeth**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn cefnogi gwaith y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ddatblygu cyfeiriad y diwydiant ffermio yng Nghymru yn y dyfodol ar sail egwyddorion Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (sydd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.wales.gov.uk/polinifo/agriculture/agric_e.htm) ac yn ystyried yr amcanion ar gyfer materion gwledig ac amaethyddiaeth fel a bennwyd yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' sef Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru (sydd ar gael ar y fewnrwyd: http://assembly/)

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol.

(1+3)

(2+4+5+6)

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**Peter Rogers (Gogledd Cymru)**

Ar ôl "Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol …" dileer y testun a rhoi'r canlynol yn ei le:

"yn arddel yr amcanion tymor hir fel y'u nodwyd yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru ar

gyfer 2000-2006, ac yn cydnabod pa mor bwysig yw partneriaeth rhwng y Cynulliad, ffermwyr a'u cynrychiolwyr o ran sicrhau dyfodol cynaliadwy yn y tymor hir i'r diwydiant yng Nghymru."

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Yn y llinell cyntaf, rhodder y gair 'nodi' yn lle 'cefnogi'

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**Peter Rogers (Gogledd Cymru)**
Ar ddiwedd y cynnig, ychwaneger:

"Ni ellir cyflawni hyn oni chaiff y diwydiant gyfle teg, yn seiliedig ar fargen deg ar gyfer ffermwyr."

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd:

Yn cadarnhau bod Amaethyddiaeth yn ddiwydiant sylfaenol o werth holl bwysig i Economi Cymru ac yn cydnabod bod cynhyrchu bwyd a defnydd tir yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i Ddatblygu Cynaliadwy;

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger fel pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn ystyried mabwysiadu dangosyddion eraill, yn ogystal â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth, er mwyn mesur cyfraniad amaethyddiaeth i economi Cymru;"

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwaneger fel pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod ffermwyr ifanc yn mynd i mewn i'r diwydiant Amaeth ac yn gresynu ynghylch y ffaith nad yw Llywodraeth Glymblaid Cymru wedi gweithredu penderfyniad y Pwyllgor i roi arian ar gyfer sefydlu Cynllun Newydd-ddyfodiaid fel un o'i brif flaenoriaethau."

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 25 Ionawr 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**